

2017

Canllawiau ynglŷn â llenwi Holiadur Canlyniadau / Gadael Gwasanaeth Cefnogi Pobl Gogledd Cymru

Fersiwn	Rheswm dros Newid	Awdur	Awdurdodiad	Dyddiad cyhoeddi
6.0	Fersiwn Gogledd Cymru wedi ei Diweddarau	DL		Mai 2017



Cynnwys

1. Cefndir	3
2. Holiadur / Arolwg Gadael Gwasanaeth	3
a. Ar-lein	
b. Copi papur	
3. Llenwi'r ffurflen	
a. Pryd ydw i'n ei llenwi?	3
b. Sut ydw i'n ei llenwi ar-lein?	3 and 4
c. Oes rhaid i mi ateb pob cwestiwn?	4
d. Ym mha Sir mae'r Prosiect yn cael ei gynnal?	4
e. Am ba hyd y gall pobl ddefnyddio eich gwasanaethau?	4
f. ID y cleient	5
g. Rhyw	5
h. Dyddiad Geni	5
i. Cyfeiriad a Chod Post	5
j. Ethnigrwydd	5
k. Ffynhonnell Atgyfeirio	6
l. Dyddiad Atgyfeirio	6
m. Cyfraniad asiantaeth arall	6
n. Anabledd	6 and 7
o. ID Gweithiwr Cefnogi	7
p. Ar ba gyfnod mewn amser fyddwch chi'n cofnodi gwybodaeth am y canlyniadau?	7
q. Ticiwch yr anghenion perthnasol	7
r. Angen Arweiniol, Ail a Thrydydd Angen	7
s. Mesur cyflawniad - Camau 1 - 5	7
4. Rhwystrau	9
5. Cefnogaeth yn Dod i Ben	9
6. Statws Digartrefedd	10
7. Blwch Sylwadau	11
8. Sut y mae'n cyrraedd y gronfa ddata?	11
9. Beth sy'n digwydd ar ôl derbyn y data?	11

1. Cefndir

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru fframwaith a oedd yn orfodol o fis Ebrill 2012.

Pwrpas y fframwaith

- Mabwysiadu system i gasglu gwybodaeth ystyrlon am y canlyniadau
- Defnyddio'r wybodaeth i fesur, cynnal a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir
- Cydnabod effeithiolrwydd y Rhaglen Cefnogi Pobl

2. Holiadur / Arolwg Gadael Gwasanaeth

a. Ar-lein

Os ydych yn llenwi'r ffurflen ar-lein, fe ddewch o hyd iddo yn

<http://www.conwy.gov.uk/sp-outcomes>

b. Copi papur

Os nad oes gennych fynediad at y rhyngrwyd, bydd copïau papur ar gael i'w llenwi. Mae copïau ar gael gan eich Timau Cefnogi Pobl.

3. Llenwi'r ffurflen

a. Pryd ydw i'n ei llenwi?

Rhaid llenwi'r ffurflen wrth ddechrau derbyn cefnogaeth, bob 6 mis neu pan fo person yn gadael y gwasanaeth.

Dylid cyflwyno un ffurflen yn unig ym mhob cyfnod

Y cyfnodau yw

- Ionawr i Fehefin
- Gorffennaf i Rhagfyr

Os ydych wedi llenwi ffurflen dechrau neu adolygu mewn cyfnod a bod y defnyddiwr gwasanaeth yn gadael mae'n rhaid i chi llenwi ffurflen diwedd – dyma'r unig adeg y byddech yn rhoi dau ganlyniad yn yr un cyfnod

b. Sut ydw i'n ei llenwi ar-lein?

Mae'r ffurflen yn cynnwys bocsys ticio yn union yr un fath â'r fersiwn bapur, ond bydd eich atebion yn eich tywys at y cwestiwn nesaf mwyaf priodol. Un enghraifft yw:

Teimlo'n rhan o'r gymuned

Berthnasol

DDIM yn berthnasol

Mesur Cyflawniad

Cam 1

Cam 2

Cam 3

Cam 4

Cam 5

A yw un o'r canlynol wedi cyfyngu ar gynydd y client?

Diwygio Lles

Diffyg Hyfforddiant / Cyfleusterau

Diffyg cefnogaeth

Diffyg llety

Diffyg cyfle / cyflogaeth

Diffyg cyllid

Methu cael mynediad at wasanaethau ategol / eraill

Diffyg ymgysylltu

Tlodi

Afiechyd

Amherthnasol

Arall

Os arall nodwch

Sylw (dim mwy na 200 nod)

Os byddwch yn dewis "DDIM yn berthnasol i anghenion defnyddwyr gwasanaeth", yn C8.1, ni fydd y cwestiynau canlynol, C8.2 a C8.3 yn cael eu gofyn. Os byddwch yn dewis "DDIM yn berthnasol i anghenion y defnyddiwr gwasanaeth" ar gyfer pob canlyniad byddwch yn cael eich annog i adolygu eich dewisiadau.

Mae modd i chi hefyd edrych ar fideo (Saesneg) ynglŷn â sut i gwblhau'r ffurflen trwy ddilyn y ddolen hon

<http://www.youtube.com/watch?v=-QXv1HWyUms>

c Oes rhaid i mi ateb pob cwestiwn?

Oes, mae'r holl gwestiynau sy'n cael eu rhoi i chi yn orfodol.

d Ym mha Sir mae'r Prosiect yn cael ei gynnal?

Nodwch ym mha sir y mae'r prosiect yn cael ei gynnal. Byddwch wedyn yn gweld rhestr o Ddarparwyr ar gyfer yr Awdurdod Lleol hwn, dylech ddewis yr awdurdod priodol lle mae eich prosiect wedi ei leoli.

e Am ba hyd y gall pobl ddefnyddio eich gwasanaethau?

Nid yw'r cwestiwn yn gofyn ers faint o amser yn union y mae cleient wedi bod yn ymwneud â'r prosiect, mae'r cwestiwn hwn yn gofyn am ba hyd y gall rhywun gael mynediad at eich gwasanaeth, felly dylai eich ateb i'r cwestiwn hwn fod yr un fath bob amser.

f ID y cleient

Mae ID y cleient yn gyfeiriad unigryw sy'n berthnasol i'r cleient er mwyn i ni allu olrhain cynnydd. Mae hwn yn ofyniad adrodd ar gyfer ffurflenni Llywodraeth Cymru. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r un cyfeirnod ar gyfer y cleient bob tro y byddwch yn llenwi ffurflen canlyniadau.

Enghraifft o ID cleient fyddai LAM121179F

g Rhyw

Yr opsiynau yw:

- Gwryw
- Benyw
- Arall

H Dyddiad Geni

Rhowch y dyddiad geni yn y fformat canlynol

D.G. (DD/MM/BBBB)

i Cyfeiriad a Chod Post

- Rhowch gyfeiriad y prosiect lle mae'n addas gwneud hynny I ffoaduriaid, rhowch gyfeiriad swyddfa'r sefydliad / darparwr neu gyfeiriad yr awdurdod lleol
- Rhowch y cod post y prosiect lle mae'n addas gwneud hynny I ffoaduriaid, rhowch god post swyddfa'r sefydliad / darparwr neu god post yr awdurdod lleol

Cyfeiriad Llinell 1

Cyfeiriad Llinell 2

Cyfeiriad Llinell 3

Cyfeiriad Llinell 4

Cyfeiriad Llinell 5

Cod post

j Ethnigrwydd

Rhowch ethnigrwydd y cleient fel a ganlyn

Ethnigrwydd

- Gwyn
- Cymysg - Gwyn ac Asiaidd
- Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd
- Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd
- Cymysg - Arall
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Ffilipino
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Arall
- Du neu Ddu Prydeinig - Caribiaidd
- Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd
- Du neu Ddu Prydeinig - Arall
- Grwpiau Eraill - Arab
- Grwpiau Eraill - Sipsiwn / Teithwyr
- Grwpiau Eraill - Arall

k Ffynhonnell atgyfeirio

Cadarnhewch pwy wnaeth atgyfeirio'r cleient i'r gwasanaethau cefnogi pobl

Ffynhonnell Atgyfeiriad

- Asiantaeth Statudol
- Asiantaeth Gwirfoddol
- Cyfaill / Teulu
- Hunan

l Dyddiad Atgyfeirio

Cadarnhewch y dyddiad y cafodd y cleient ei atgyfeirio i'ch gwasanaeth

Nodyn

Efallai y bydd y dyddiad hwn yn wahanol i ddyddiad dechrau gwasanaethau

m Cyfranogiad asiantaethau eraill

Cadarnhewch a oes yna asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r cleient

Ymrwymiad gan asiantaethau eraill

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Gwasanaethau Prawf
- Gwasanaethau Camddefnyddio Alcohol / Sylweddau
- Cymunedau yn Gyntaf
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Dechrau'n Deg
- Dim
- Arall

Os arall nodwch os gwelwch yn dda

n Anabledd

Cadarnhewch a oes gan y cleient anabledd?

Anabledd

- Oes
- Nac oes
- Heb nodi

o ID Gweithiwr Cefnogi

Rhowch ID gweithiwr cefnogi yma os oes angen i chi olrhain pwy sy'n cwblhau ffurflenni yn eich sefydliad.

p Ar ba gyfnod mewn amser ydych chi'n cofnodi gwybodaeth am y canlyniadau?

Ar gyfer y cwestiwn hwn bydd angen i chi ddewis un o'r canlynol sy'n cyd-fynd â pha gyfnod mewn amser yr ydych yn cofnodi'r wybodaeth:

- Wrth ddechrau derbyn cefnogaeth
- Wrth adolygu wedi cyfnod o 6 mis
- Ar y diwedd / wrth adael y gwasanaeth

Os ydych yn dewis Adolygu / Ail-asesu (gwasanaeth yn parhau) neu Gwasanaeth yn dod i ben, byddwch yn cael eich annog i nodi dau ddyddiad

1. Dyddiad dechrau cefnogi - nodwch y dyddiad y dechreuodd y gefnogaeth
2. Dyddiad adolygu neu orffen y gwasanaeth - nodwch ddyddiad yr adolygiad neu'r dyddiad y daeth y gwasanaeth i ben

q Ticiwch yr anghenion perthnasol

Mae'r anghenion sydd i'w gweld yma yn adlewyrchu'r newidiadau y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar i gyd-fynd â'r rheiny yn y Cynllun Gwario.

r Angen arweiniol, Ail a Thrydydd Angen

Dewiswch un dewis ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn
Nodwch fod yr Angen arweiniol yn Ofynnol ond nad yw'r gweddill

s Mesur cyflawniad - Camau 1-5

Mae'r ffurflen yn cynnwys cyfarwyddiadau byrion, fel y cânt eu dangos isod.

Mesur Cyflawniad

- Cam 1
 - Cam 2
 - Cam 3
 - Cam 4
 - Cam 5
-

Cam 1

- ❖ Nod y darparwr gwasanaeth yn ystod y cam hwn yw atal neu leihau niwed i ddefnyddwyr gwasanaeth ac eraill a datblygu ymddiriedaeth gyda'r defnyddiwr gwasanaeth
- ❖ Yn ystod y cam hwn gall y defnyddiwr gwasanaeth fod yn amharod i drafod y rhan hon o'u bywyd neu gallai fod yn anodd ymgysylltu â nhw
- ❖ Dylid cefnogi defnyddwyr gwasanaeth er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu hyd nes y gellir dechrau gweld cynnydd yn y maes hwn

Cam 2

- ❖ Efallai y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn barod i drafod y maes hwn, ond nad yw'n amlwg iddynt sut i wneud cynnydd ac mae arnynt angen cefnogaeth sylweddol er mwyn cymryd y camau nesaf
- ❖ Mae gan y Darparwr Gwasanaeth ffocws pendant ar gefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gynyddu eu sefydlogrwydd a rhoi mynediad iddynt at adnoddau sy'n helpu i osod nod yn y maes hwn
- ❖ Efallai y bydd ar ddefnyddwyr gwasanaeth angen cymorth sylweddol i dderbyn eu bod yn gallu rheoli'r agwedd hon o'u bywydau
- ❖ Efallai mai yma y bydd y gefnogaeth yn ystod y camau cychwynnol ac o ganlyniad i nifer o ffactorau (e.e. risg, iechyd, cynhwysedd, blaenoriaethu) efallai y bydd y gweithiwr cefnogi yn arwain mewn sawl agwedd o fywyd

Cam 3

- ❖ Bydd defnyddwyr gwasanaeth wedi dechrau credu y gallent wneud gwahaniaeth / achosi newid yn yr agwedd hon o'u bywydau a byddant yn fodlon defnyddio nodau amserol penodol er mwyn cyflawni'r canlyniad disgwyledig
- ❖ Dylai'r cam hwn ganolbwyntio ar annog defnyddwyr gwasanaeth i weithio tuag at nodau cyraeddadwy ar eu pen eu hunain gan ddarparu cefnogaeth pe baent ei angen, ond heb ei wneud drostynt
- ❖ Dylai defnyddwyr gwasanaethau gael cefnogaeth i fyfyrion ar yr hyn a aeth yn dda a'u cefnogi'n gadarnhaol pan na fydd pethau wedi mynd cystal

Cam 4

- ❖ Dylid rhoi cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth i ddelio ag anawsterau eu hunain a dod yn fwy hunan-ddibynnol ac yn fwy gwybodus ynglŷn â sut i geisio cymorth gan sefydliad heb eu gweithiwr cefnogi

Cam 5

- ❖ Dylai defnyddwyr gwasanaeth bellach fedru rheoli'r rhan fwyaf o faterion yn y maes hwn ar eu pennau eu hunain
- ❖ Dylai defnyddwyr gwasanaeth fod yn cael mynediad at wasanaethau heb gefnogaeth y rhan fwyaf o'r amser a chael cefnogaeth i ddeall pryd mae/os oes angen cymorth ychwanegol arnynt yn y maes hwn
- ❖ Dylai defnyddwyr gwasanaeth deimlo'n ddigon hyderus i ddechrau cynnal eu hunain wrth ddelio â materion yn y maes hwn
- ❖ Mewn gwasanaethau tymor hir, bydd defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn efallai y bydd wastad angen cymorth arnynt yn y maes hwn ond maent yn cynnal eu lefel orau posibl o annibyniaeth o ran cyflawni eu nod neu o ran atal colli eu hannibyniaeth drwy gael cefnogaeth hirdymor

4. Rhwystrau

Defnyddiwch yr adran hon i nodi unrhyw rwystrau a allai fod wedi rhwystro'r cleient rhag sicrhau canlyniad penodol neu a allai fod wedi eich rhwystro chi i helpu'r cleient i gyflawni canlyniad. Os ydych yn dewis 'Arall' bydd angen i chi roi manylion am y rhwystr hwn, dim ond manylion am rwystrau y byddwch yn ei roi yma.

Defnyddiwch yr adran hon i ddangos pa rwystrau sydd wedi rhwystro'r cleient rhag cyflawni canlyniad penodol a dewiswch pa rwystrau sydd wedi effeithio arnoch chi fel darparwr wrth helpu eich cleient.

Dewiswch o'r gwymplen - gallwch ddewis mwy nag un dewis

Q8.6 A yw un o'r canlynol wedi cyfyngu ar gynnydd y client?

- Diwygio Lles
- Diffyg Hyfforddiant / Cyfleusterau
- Diffyg cefnogaeth
- Diffyg llety
- Diffyg cyfle / cyflogaeth
- Diffyg cyllid
- Methu cael mynediad at wasanaethau ategol / eraill
- Diffyg ymgysylltu
- Tlodi
- Afiechyd
- Amherthnasol
- Arall

Os arall nodwch

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w throsglwyddo i asiantaethau perthnasol ac i lywio strategaethau. Bydd hefyd yn cael ei adrodd wrth Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru yn flynyddol ar gyfer trafodaeth.

5. Cefnogaeth yn Dod i Ben

Dewiswch reswm pam y death y gefnogeth i ben

Nodwch pam ddaeth y gefnogaeth i ben (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

<input type="radio"/> Wedi symud i Dai â Chefnogaeth tymor byr	<input type="radio"/> Wedi mynd i'r carchar/sefydliad i droseddwyr ifanc
<input type="radio"/> Wedi symud i Dai â Chefnogaeth tymor hir	<input type="radio"/> Wedi mynd i gyfleuster dadwnewyno preswyl
<input type="radio"/> Wedi symud i Dai Lloches	<input type="radio"/> Anghenion iechyd wedi sefydlogi
<input type="radio"/> Wedi symud i Gartref Gofal	<input type="radio"/> Ddim yn ymgymryd â'r gefnogaeth
<input type="radio"/> Wedi symud i lety cynaliadwy	<input type="radio"/> Wedi symud o'r ardal
<input type="radio"/> Wedi mynd i ystyby neu hosbis am gyfnod hir	<input type="radio"/> Arall (a wnewch chi ddarparu manylion)
<input type="radio"/> Rŵan mewn cynllun gofal ychwanegol	<input type="radio"/> Trosglwyddo i wasanaeth tymor hir e.e. Gofal Cartref (nodwch pa un isod)
<input type="radio"/> Wedi mynd i Uned Iechyd Meddwl	<input type="radio"/> Ymadawedig
<input type="radio"/> Trosglwyddo i asiantaeth gefnogi arall - Cefnogi Pobl (nodwch pa un isod)	<input type="radio"/> Ddim wedi llwyddo i gysylltu
<input type="radio"/> Trosglwyddo i asiantaeth gefnogi arall - nid Cefnogi Pobl (nodwch isod pa asiantaeth)	<input type="radio"/> Defnyddiwr gwasanaeth ddim eisiau cefnogaeth
<input type="radio"/> Mae anghenion cefnogi yn ymwneud â thai wedi'u diwallu	<input type="radio"/> Anghenion heb eu hadnabod
<input type="radio"/> Yn cael taliadau uniongyrchol	<input type="radio"/> Eisoës yn cael cefnogaeth - CP
<input type="radio"/> Sylwadau	<input type="radio"/> Defnyddiwr Gwasanaeth ddim wedi rhoi caniatâd

Trosglwyddwyd – rhowch fanylion

Sylwer – mae yna ychydig mwy o opsiynau yn y cwestiwn hwn nag o'r blaen – yr opsiynau newydd yw

- Trosglwyddo i asiantaeth gefnogi arall – dim Cefnogi Pobl (nodwch pa un isod)
- Methu cysylltu
- Defnyddiwr gwasanaeth ddim eisiau cefnogaeth
- Anghenion heb eu nodi
- Eisoës yn rhoi cefnogaeth i Cefnogi Pobl
- Defnyddiwr gwasanaeth heb roi caniatâd

6. Statws Digartrefedd

Mae'r cwestiynau canlynol yn orfodol

6.1 Dechrau'r Gefnogaeth

Atebwch y cwestiwn hwn pan fyddwch yn llenwi canlyniad ar y dechrau. Bydd y system yn eich annog i wneud hynny.

Statws digartref ar ddechrau'r gefnogaeth

- Digartref
- Mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 o ddiwrnodau
- Mewn Llety Dros Dro
- Angen cefnogaeth i aros yn eu cartrefi eu hunain

6.2 Diwedd y Gefnogaeth

Atebwch y cwestiwn hwn pan fyddwch yn llenwi canlyniad wrth adael. Bydd y system yn eich annog i wneud hynny.

Statws digartref ar ddiwedd y gefnogaeth

- Digartref
- Mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 o ddiwrnodau
- Mewn Llety Dros Dro
- Angen cefnogaeth i aros yn eu cartrefi eu hunain
- Cynnal Llety Sefydlog yn Annibynnol (6 mis a mwy)

7. Blwch sylwadau

Mae blychau sylwadau drwy gydol yr holiadur.

Defnyddiwch y rhain i roi adborth perthnasol fel y gall y Tîmau Cefnogi Pobl eu trafod mewn cyfarfodydd adolygu.

8. Sut y mae'r arolwg yn cyrraedd y gronfa ddata?

a. Copi papur

Postiwch at

- Swyddog Arweiniol Cefnogi Pobl
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai
Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Abergele
Hen Golwyn LL29 8AR

b. Ar-lein

Cliciwch y botwm 'Cyflwyno' ar ddiwedd yr arolwg

Nodyn Pwysig - os nad ydych yn gweld y neges 'Diolch' ar ôl clicio 'Cyflwyno' ni fydd eich gwybodaeth wedi ein cyrraedd - mae'n rhaid i chi aros nes gweld y neges hon cyn i chi adael yr arolwg.

9. Beth sy'n digwydd ar ôl derbyn y data?

- a. Bydd Tîm Cefnogi Pobl Conwy yn tynnu'r data o'r gronfa ddata
- b. Bydd Tîm Cefnogi Pobl Conwy yn anfon y data i bob Tîm Cefnogi Pobl Awdurdod Lleol fydd yn ei anfon allan i Ddarparwyr unigol ar gyfer gwirio
- c. Yna bydd darparwyr yn anfon y data cywir yn ôl i'w Tîm Cefnogi Pobl at ddibenion casglu
- d. Yna bydd yr Awdurdod Lleol yn paratoi'r ffurflen i'w hanfon i Lywodraeth Cymru